# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Diwygio Apeliadau

Cyflwyniad

Awst 2013

Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynnwys

Cyflwyniad - Beth sy'n newid ........ 3
Beth yw'r newidiadau? ........ 3
Pryd y caiff y newidiadau hyn eu cyflwyno? ........ 3
Cefndir - Yr achos dros newid ........ 4
Y Broses o Ddiwygio Apeliadau ........ 6
Crynodeb o'r ffeithiau allweddol ........ 7
Camau i'w cymryd ........ 8
Gwybodaeth bwysig ........ 8

# Cyflwyniad - Beth sy'n newid

Mae'r broses apelio yn newid yn 2013 er mwyn sicrhau y gellir datrys mwy o anghydfodau ynghylch penderfyniadau DWP heb fod angen iddynt gael eu cyfeirio at Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS). Mae DWP yn ymrwymedig i atal anghydfodau, lleihau nifer yr anghydfodau a gaiff eu cyfeirio, datrys anghydfodau a dysgu o anghydfodau. O fis Ebrill 2013, dechreuodd DWP gyflwyno newidiadau fel rhan o Ddeddf Diwygio Lles 2012.

# Beth yw'r newidiadau?

**Bydd DWP yn ailystyried pob penderfyniad cyn apêl.** Bydd y newid hwn yn golygu os bydd rhywun yn anghytuno â phenderfyniad, bydd angen iddo ofyn i DWP ailystyried y penderfyniad cyn y gall apelio i HMCTS. Gelwir hyn yn **"ailystyriaeth orfodol"**. Nod y newid yw annog pobl i roi tystiolaeth ychwanegol yn gynt yn y broses. Dylai datrys anghydfodau heb fod angen apelio hefyd helpu i sicrhau y rhoddir y penderfyniad cywir i bobl yn gynharach yn y broses.

**Dylid gwneud apeliadau'n uniongyrchol i HMCTS.** Bydd y newid hwn yn golygu, ar ôl i DWP ailystyried penderfyniad, os bydd rhywun yn anghytuno â'r penderfyniad o hyd ac yn dymuno apelio, bydd yn rhaid iddo anfon ei apêl yn uniongyrchol i HMCTS. Yr enw ar y broses hon yw **"cyflwyno'n uniongyrchol"**. Bydd yn sicrhau bod y broses ar gyfer apeliadau Nawdd Cymdeithasol a chynhaliaeth plant yn gyson â'r prif awdurdodaethau tribiwnlysoedd eraill y mae HMCTS yn delio â hwy.

**Terfynau amser i DWP ddychwelyd ymatebion i HMCTS**. Mae DWP wedi cytuno â'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i gyflwyno terfynau amser er mwyn nodi faint o amser sydd gan DWP i ymateb i apêl unigol. Bydd y terfynau amser hyn yn golygu y bydd gan DWP 28 diwrnod calendr i roi ymateb i apêl mewn achosion yn ymwneud â budd-daliadau, a 42 diwrnod calendr mewn achosion yn ymwneud â chynhaliaeth plant.

# Pryd y caiff y newidiadau hyn eu cyflwyno?

Cyflwynodd DWP y tri newid ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol ym mis Ebrill 2013.

Caiff y newidiadau eu cyflwyno ar gyfer pob achos arall yn ymwneud â budd-daliadau a chynhaliaeth plant a weinyddir gan DWP o 28 Hydref 2013 ymlaen, a bydd DWP yn dechrau cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r terfynau amser o fis Hydref 2014.

Mae rhagor o wybodaeth am Ddiwygio Apeliadau ar gael yn www.gov.uk/cymraeg.

# Cefndir - Yr achos dros newid

## Pam bod ailystyriaeth orfodol yn cael ei chyflwyno?

Y prif resymau dros gyflwyno ailystyriaeth orfodol yw:

• datrys unrhyw anghydfodau cyn gynted â phosibl;

• lleihau'r galw diangen ar HMCTS drwy ddatrys mwy o anghydfodau'n fewnol;

• ystyried diwygio penderfyniad lle y bo'n briodol;

• rhoi esboniad llawn o'r penderfyniad; ac

• annog hawlwyr i nodi a darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol a all effeithio ar y penderfyniad, er mwyn iddynt allu cael penderfyniad cywir cyn gynted â phosibl.

Mae'r broses ailystyriaeth orfodol yn ein galluogi i edrych eto ar ein penderfyniadau mewn modd teg a thrylwyr.

Bydd y broses hon yn cynnwys galwad gan swyddog penderfyniadau, er mwyn trafod penderfyniadau y ceir anghydfod yn eu cylch â hawlwyr a'u gwahodd i ddarparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol cyn gynted â phosibl. Yna, lle y bo'n briodol, gallwn newid ein penderfyniad cyn gynted â phosibl yn hytrach na gorfod mynd drwy broses apeliadau hir a chostus.

## Pam bod proses o gyflwyno'n uniongyrchol yn cael ei chyflwyno?

Y prif resymau dros gyflwyno'r broses hon yw:

• cysoni'r broses apelio ar gyfer apeliadau Nawdd Cymdeithasol a chynhaliaeth plant ag awdurdodaethau pwysig eraill y mae HMCTS yn delio â hwy;

• sicrhau nad yw DWP yn ymwneud â'r broses o weinyddu apeliadau mwyach, ac y gall ganolbwyntio ar ei rôl allweddol fel parti i apeliadau; a

• cyflymu'r broses apelio a'i hegluro.

Gall y trefniant presennol, lle mae pobl yn cyflwyno eu hapêl i DWP sydd wedyn yn ei throsglwyddo i HMCTS, achosi oedi o ran trefnu tribiwnlysoedd, a dryswch i bobl nad ydynt o bosibl yn sylweddoli pa sefydliad sy'n gyfrifol am eu hapêl ar unrhyw adeg.


## Pam bod terfynau amser yn cael eu cyflwyno?

Nod terfynau amser yw gwella gwasanaethau cwsmeriaid drwy roi amserlen i bobl y gallant ddisgwyl i DWP ymateb i apêl unigol yn unol â hi.

Hefyd, bydd y newid yn sicrhau bod DWP yn gweithredu'n unol ag adrannau eraill sydd eisoes yn ddarostyngedig i derfynau amser wrth gyflwyno ymatebion i HMCTS.

# Y Broses o Ddiwygio Apeliadau

## Proses Apelio Lefel Uchel (Ailystyriaeth Orfodol a Chyflwyno'n Uniongyrchol)




*os yw'r apêl yn cynnwys rhagor o dystiolaeth, caiff ei chyfeirio'n ôl at Swyddog Gwneud Penderfyniadau DWP am ystyriaeth bellach

1

# Crynodeb o'r ffeithiau allweddol

- Cyflwynodd DWP y tri newid ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol ym mis Ebrill 2013. Cyflwynir y newidiadau ar gyfer achosion eraill yn ymwneud â budd-daliadau DWP a chynhaliaeth plant o 28 Hydref 2013 ymlaen, a bydd DWP yn dechrau cyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r terfynau amser o fis Hydref 2014.

- Efallai y bydd ailystyriaeth orfodol yn ddryslyd i bobl pan gaiff ei chyflwyno am y tro cyntaf. Efallai y cewch ymholiadau gan bobl nad ydynt yn deall pam bod y broses wedi newid. Efallai y bydd rhai pobl yn tybio y gallant apelio ar unwaith o hyd os byddant yn anghytuno â phenderfyniad DWP, heb ofyn am ailystyriaeth orfodol yn gyntaf.

- Ni fydd ailystyriaeth orfodol yn effeithio ar fudd-daliadau DWP ac eithrio'r Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol tan fis Hydref 2013, felly efallai y bydd hawlwyr Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol sydd hefyd yn cael unrhyw rai o'r budd-daliadau eraill hyn am gael esboniad pam bod proses datrys anghydfodau wahanol ar gyfer y Taliad Annibyniaeth Personol a Chredyd Cynhwysol.

- Os ydych mewn cysylltiad â rhywun sydd am anghytuno â phenderfyniad ynghylch Taliad Annibyniaeth Personol neu Gredyd Cynhwysol, mae'n bwysig dweud wrthynt bod yn rhaid iddynt ofyn i DWP am ailystyriaeth orfodol cyn y gallant apelio.

- Dylai pobl sy'n apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch Taliad Annibyniaeth Personol neu Gredyd Cynhwysol ddefnyddio'r ffurflen apelio SSCSW newydd, sydd ar gael ar-lein yn www.justice.gov.uk/tribunals neu GOV.UK, neu ar ffurf copi caled gan gorff cynghori annibynnol fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Dylai pobl sy'n apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch eu hawliad budd-dal neu gynhaliaeth plant hefyd ddefnyddio'r ffurflen apelio SSCSW newydd os cyhoeddwyd eu hysbysiad ar 28 Hydref 2013 neu ar ôl y dyddiad hwnnw.

- Pan fydd unigolyn wedi cwblhau'r ffurflen SSCSW, rhaid iddo atodi copi o'i Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol a'i chyflwyno'n uniongyrchol i HMCTS. Bydd yr Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol yn cynnwys manylion ble y dylai anfon y ffurflen.

- Bydd taflen GL24W ar gael o hyd tan ddiwedd 2014 hefyd, felly mae'n bosibl y gall rhai pobl apelio gan ddefnyddio GL24W yn lle SSCS1W, ar gam. Os bydd rhywun yn apelio ar y ffurflen anghywir, bydd ei apêl yn ddilys o hyd ar yr amod ei bod wedi'i hategu gan Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol.

# Camau i'w cymryd

Mae'r camau i'w cymryd ar gyfer Grwpiau Heb Gynrychiolaeth Ddigonol ar gael ar wefan Gorfforaethol DWP.

# Gwybodaeth bwysig

Canllaw yn unig yw'r pecyn wybodaeth hwn ac nid yw’n cwmpasu'r holl amgylchiadau a all godi. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y pecyn gwybodaeth hwn yn gywir ym mis Awst 2013. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.